**ATODIAD 3**

**ARBEDION A THORIADAU**

**1.** Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £42m o gynlluniau arbedion ers 2015/16.

**2.** Unwaith eto eleni fel mewn blynyddoedd blaenorol nid oedd y grant gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, a gan fod y pwysau mewn amrywiol feysydd megis gofal, gwastraff, a digartrefedd yn parhau, rydym wedi bod mewn cylch parhaus o orfod darganfod arbedion.

**3.** Mae un cynllun arbedion gwerth £200,000 gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a dau gynllun gyda chyfanswm o £450,000 yn y maes gwastraff gan yr Adran Amgylchedd, sydd yn deillio o raglenni blaenorol o arbedion sydd yn berthnasol i 2025/26. Mae'r cynlluniau eisoes wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor, ac felly nid ydynt yn destun penderfyniad eleni. Maent hefyd wedi dilyn proses statudol priodol, gweler isod er gwybodaeth.

| **Arbediad** | **Cyfanswm £** |
|---|---:|
| Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd (Ardal Pwllheli, Ffestiniog, De Meirionnydd) | 200,000 |
| Gwasanaethau Gwastraff - Rhesymoli trefniadau dosbarthu cynhwysion | 50,000 |
| Gwasanaethau Gwastraff - Adolygu Cytundebau Gwastraff | 400,000 |
| **CYFANSWM** | **650,000** |

**4.** Ar 20 Chwefror 2024, bu i'r Cabinet gymeradwyo gwerth £5.2m o arbedion a thoriadau ar gyfer cyllideb 2024/25 ymlaen, a ddaeth i rym yn unol â'r proffil isod, gyda gwerth £2,860,300 wedi eu proffilio ar gyfer 2025/26. Gweithredwyd y £5.2m yn ei gyfanrwydd wrth osod cyllideb yn 2024/25 ac felly nid yw arbedion 2025/26 a 2026/27 yn cynorthwyo i leihau'r bwlch ariannol yn y blynyddoedd hynny.

**PROFFIL CYNLLUNIAU ARBEDION A THORIADAU 2024/25 YMLAEN**

| | **2024/25 £** | **2025/26 £** | **2026/27 £** | **Cyfanswm £** |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Proffil arbedion a thoriadau | 1,965,760 | 2,860,300 | 343,090 | **5,169,000** |

**5.** Bu i’r cabinet ar 21 Ionawr 2025 gymeradwyo i ddileu'r cynllun casglu clytiau gwerth £146,910 o’r maes gwastraff yn yr Adran Amgylchedd sydd wedi ei broffilio ar gyfer 2025/26, gan ddefnyddio’r ddarpariaeth a osodwyd o’r neilltu yn y gyllideb er mwyn gwneud hynny.

**6.** Yn sgil yr hinsawdd economaidd bresennol, mae’n anorfod fod rhaid i Awdurdodau Lleol barhau i edrych ar arbedion a thoriadau i gynorthwyo’r sefyllfa ariannol. Mae adroddiad ar wahân ar raglen y Cabinet yn cynnwys rhestr o arbedion a thoriadau pellach arfaethedig ar gyfer eu gweithredu yn 2025/26 – 2027/28 sydd werth £519,000, byddant yn dod i rym yn unol â’r proffil isod:

**PROFFIL CYNLLUNIAU ARBEDION A THORIADAU NEWYDD 2025/26 YMLAEN**

| | **2025/26 £** | **2026/27 £** | **2027/28 £** | **Cyfanswm £** |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Proffil arbedion a thoriadau | 100,000 | 320,500 | 98,500 | **519,000** |

**7.** Felly, i grynhoi, yr arbedion a thoriadau canlynol sydd wedi eu proffilio i’w gwireddu yn 2025/26:

| | **£** |
|---|---:|
| Arbedion sydd wedi eu cymeradwyo’n flaenorol | 200,000 |
| Arbedion 23/24 wedi eu proffilio i 25/26 | 450,000 |
| Arbedion a thoriadau 24/25 wedi eu proffilio i 25/26 | 2,860,300 |
| Dileu 1 cynllun hanesyddol yr Adran Amgylchedd | -146,910 |
| Arbedion a thoriadau newydd 25/26 wedi eu proffilio i 25/26 | 100,000 |
| **CYFANSWM** | **3,463,390** |